



# Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

2024 dsc 4

Nodiadau Esboniadol

# Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024

2024 asc 4

Explanatory Notes

**£13.57**





# Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

2024 dsc 4

Nodiadau Esboniadol

# Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024

2024 asc 4

Explanatory Notes

# DEDDF SENEDD CYMRU (AELODAU AC ETHOLIADAU) 2024

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

- Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, a basiwyd gan Senedd Cymru ar 08 Mai 2024 ac a gafodd y Cysyniad Brenhinol ar 24 Mehefin 2024. Fe'u lluniwyd gan Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.
- Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd, drwy ddiwygio nifer yr etholaethau a nifer y seddi ar gyfer pob etholaeth a diddymu'r pum rhanbarth etholiadol. Mae hefyd yn gwneud newidiadau cysylltiedig sy'n deillio o'r newid hwn mewn maint. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r terfyn ar y nifer o Weinidogion Cymru a darparu ar gyfer Dirprwy Lywydd ychwanegol y caniateir ei ethol o'r Senedd.
- Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer newid system etholiadol aelodau cymysg y Senedd fel bod yr holl Aelodau yn cael eu hethol drwy system gyfrannol â rhestr gaeedig, gyda phleidleisiau'n cael eu trosi i seddi drwy ddefnyddio fformiwla D'Hondt. Ar y cyd, mae'n darparu ar gyfer ehangu rôl Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a'i ailenwi yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn"). Mae'r Ddeddf yn rhoi i'r Comisiwn y swyddogaeth o gynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethau'r Senedd ac yn gwneud newidiadau cysylltiedig o ran sut y cyfansoddir y Comisiwn. Mae hefyd yn amlinellu'r rheolau a'r prosesau y mae rhaid i'r Comisiwn eu dilyn wrth gynnal ei adolygiadau ffiniau, gan gynnwys mewn perthynas â'r adolygiad symlach i baru 32 etholaeth newydd Senedd y DU cyn etholiad 2026 y Senedd sydd wedi ei drefnu (i ffurfio 16 etholaeth Senedd newydd), adolygiad llawn cyn yr etholiad yn 2030 sydd wedi ei drefnu, ac adolygiadau cyfnodol parhaus.
- Bydd y Ddeddf hefyd yn dychwelyd y cyfnod arferol rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd i 4 blynedd; yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau o'r Senedd, ac ymgeiswyr i fod yn Aelodau ohoni, gael eu cofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad yng Nghymru; yn darparu gofyniad i'r Llywydd i gyflwyno cynnig i'r Senedd ystyried adolygiad o weithrediad y darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiad 2026 a darparu gofyniad i'r Llywydd i gyflwyno cynnig i'r Senedd ymgymryd â gwaith i archwilio ystyriaethau ymarferol a deddfwriaethol sy'n ymwneud â rhannu rhai swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd a Llywodraeth Cymru.

# **SENEDD CYMRU (MEMBERS AND ELECTIONS) ACT 2024**

---

## **EXPLANATORY NOTES**

### **INTRODUCTION**

1. These Explanatory Notes are for the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024, which was passed by Senedd Cymru on 08 May 2024 and received Royal Assent on 24 June 2024. They have been prepared by the Economy, Treasury and Constitution Group of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.
2. The Act makes provision for increasing the number of Members of the Senedd, by amending the number of constituencies and the number of seats for each constituency and abolishing the five electoral regions. It also makes associated changes resulting from this change in size. These include increasing the limit on the number of Welsh Ministers and providing for an additional Deputy Presiding Officer who may be elected from the Senedd.
3. The Act also provides for changing the Senedd's mixed member electoral system so that all Members are elected through a closed list proportional system, with votes translated into seats using the D'Hondt formula. In association, it provides for an expansion of the role of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales, and renames it as the Democracy and Boundary Commission Cymru ("the Commission"). The Act gives the Commission the function of undertaking ongoing reviews of Senedd constituency boundaries and makes related changes to how the Commission is constituted. It also sets out the rules and processes the Commission must follow in undertaking its boundary reviews, including in respect of the streamlined review to pair the 32 new UK Parliamentary constituencies in advance of the scheduled 2026 Senedd election (to form 16 new Senedd constituencies), a full review in advance of the scheduled 2030 election, and ongoing periodic reviews.
4. The Act will also return the normal length of time between Senedd ordinary general elections to 4 years; require Members of the Senedd, and candidates to be Members, to be registered in the register of local government electors at an address within Wales; provide for a requirement that the Presiding Officer asks the Senedd (by way of a motion tabled) to consider a review of the operation of the new legislative provisions following the 2026 election and provide for a requirement that the Presiding Officer asks the Senedd (by way of a motion tabled) to undertake work to explore practical and legislative considerations relating to implementing job sharing of certain offices related to the Senedd and the Welsh Government.

## **RHAN 1 - Y SENEDD A GWEINIDOGION CYMRU**

5. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth i newid nifer yr Aelodau o'r Senedd, drwy ddiwygio nifer yr etholaethau a nifer y seddi ar gyfer pob etholaeth ac (ar y cyd â'r newidiadau i'r system etholiadol a wneir gan Ran 2), diddymu'r pum rhanbarth etholiadol. Mae'n gwneud newidiadau cysylltiedig, megis darparu ar gyfer pennu etholaethau'r Senedd drwy gyfeirio at reoliadau a wneir i weithredu'r adolygiadau ffiniau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 4, ac yn rhoi pŵer i'r Senedd i ethol ail Ddirprwy Lywydd, yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd y mae rhaid ei benodi yng nghyfarfod cyntaf y Senedd o dan adran 25(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn yr un modd, mae'n darparu ar gyfer cynyddu'r nifer uchaf o Weinidogion Cymru a gaiff ddal swydd ar yr un pryd. Mae'r Ddeddf yn newid amllder etholiadau cyffredinol cyffredin i'r Senedd, ac yn anghymhwyso person nad yw wedi ei gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn etholaeth Senedd, rhag sefyll etholiad i'r Senedd, neu rhag aros fel Aelod o'r Senedd. Mae'n darparu gofyniad i'r Llywydd i gyflwyno cynnig i'r Senedd i ymgymryd â gwaith i sefydlu pwyllgor i archwilio ystyriaethau ymarferol a deddfwriaethol sy'n ymwneud â rhannu rhai swyddi.

### **Adran 1 - Y nifer o Aelodau o'r Senedd ac etholaethau'r Senedd**

6. Mae adran 1 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") i ddarparu i'r Senedd gael 16 etholaeth, â chwe sedd ym mhob etholaeth. Mae hyn yn golygu y bydd y Senedd yn cynnwys 96 Aelod (16 wedi ei luosi â chwech) ac eithrio mewn amgylchiadau pan fo un neu ragor o seddi yn y Senedd yn wag.

### **Adran 2 - Etholaethau'r Senedd**

7. Mae adran 2 yn diwygio Deddf 2006 i ddarparu ar gyfer etholaethau'r Senedd o dan y system etholiadol newydd. Ar gyfer yr etholiad cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 bydd yr etholaethau yn cael eu pennu mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff 9 o Atodlen 1 i'r Ddeddf. Yn dilyn hynny, byddant yn cael eu pennu mewn rheoliadau o dan adran 49J o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (enw byr y Ddeddf honno ar hyn o bryd yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ond yng ngoleuni'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Ddeddf honno gan y Ddeddf hon, fel a drafodir isod, mae adran 17 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i newid ei henw). Mae hyn yn golygu y bydd Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol o'r 16 etholaeth Senedd yn unig (ni fydd Aelodau rhanbarthol).

### **Adran 3 - Etholiadau cyffredinol cyffredin: pa mor aml**

8. Mae adran 3 yn diwygio adran 3 o Ddeddf 2006 i newid amllder etholiadau cyffredinol cyffredin er mwyn eu cynnal bob pedair blynedd, yn hytrach na phob pum mlynedd.

### **Adran 4 - Dirprwy Lywydd ychwanegol**

9. Mae adran 4 yn diwygio adran 25 o Ddeddf 2006 i ddarparu y bydd y Senedd yn gallu ethol ail Ddirprwy Lywydd, yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd y mae rhaid ei ethol yng nghyfarfod cyntaf y Senedd o dan adran 25(1)(b) o Ddeddf 2006. Caiff Rheolau Sefydlog y Senedd ddarparu i'r Dirprwy Lywydd ychwanegol ddal swydd am gyfnod byrrach o amser na'r sefyllfa ddiofyn a ddarperir ar ei chyfer yn Deddf 2006 (sef, aros yn y swydd tan ddiddymiad y Senedd y cafodd y Dirprwy Lywydd ei ethol yn ei hystod).

## **PART 1 - THE SENEDD AND WELSH MINISTERS**

5. This Part makes provision to change the number of Members of the Senedd, by way of amending the number of constituencies and the number of seats for each constituency and (in conjunction with the changes to the electoral system being made by Part 2) abolishing the five electoral regions. It makes associated changes, such as providing for the specification of Senedd constituencies by reference to regulations made to implement the boundary reviews provided for in Part 4, and it provides power to the Senedd to elect a second Deputy Presiding Officer, in addition to the Deputy Presiding Officer that must be appointed at the first meeting of the Senedd under Section 25(1)(b) of the Government of Wales Act 2006. It likewise provides for an increase in the maximum number of Welsh Ministers that can hold office at the same time. The Act changes the frequency of ordinary general elections to the Senedd, and disqualifies from standing for election to the Senedd, or from remaining as a Member of the Senedd, a person who is not registered in the register of local government electors at an address within a Senedd constituency. It provides for a requirement that the Presiding Officer asks the Senedd, by way of a motion tabled, to establish a committee to explore practical and legislative considerations relating to job sharing of certain offices.

### **Section 1 - Number of Members of the Senedd and Senedd constituencies**

6. Section 1 amends the Government of Wales Act 2006 (“the 2006 Act”) to provide for the Senedd to have 16 constituencies, with six seats for each constituency. This means that the Senedd will consist of 96 Members (16 multiplied by six) except in circumstances where one or more seats in the Senedd are vacant.

### **Section 2 - Senedd constituencies**

7. Section 2 amends the 2006 Act to provide for the Senedd’s constituencies under the new electoral system. For the first election held after 6 April 2026, the constituencies will be specified in regulations made under paragraph 9 of Schedule 1 to the Act. Subsequently, they will be specified in regulations under section 49J of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 (the short title of that Act is currently the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, but in light of the changes being made to that Act by this Act, discussed below, section 17 of the Act makes provision to change its name). This means that the Members of the Senedd will be exclusively elected from the 16 Senedd constituencies (there will be no regional Members).

### **Section 3 - Frequency of ordinary general elections**

8. Section 3 amends section 3 of the 2006 Act to change the frequency of ordinary general elections so as to take place every four years, rather than every five years.

### **Section 4 - Additional Deputy Presiding Officer**

9. Section 4 amends section 25 of the 2006 Act to provide for the Senedd to be able to elect a second Deputy Presiding Officer, in addition to the Deputy Presiding Officer that must be elected at the first meeting of the Senedd under section 25(1)(b) of the 2006 Act. The Standing Orders of the Senedd may provide for the additional Deputy Presiding Officer to hold office for a shorter period of time than the default position provided for in the 2006 Act (namely, staying in office until the dissolution of the Senedd during which the Deputy Presiding Officer was elected).

10. Mae adran 4 hefyd yn darparu ar gyfer cyfyngiadau penodol ar ddewis y Senedd o ail Ddirprwy Lywydd. Ni chaniateir iddo fod o'r un grŵp gwleidyddol â'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd arall, ac ni chaniateir iddo fod yn Aelod o grŵp nad yw'n grŵp gweithrediaeth os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn Aelodau o grwpiau nad ydynt yn grwpiau gweithrediaeth (mae grŵp nad yw'n grŵp gweithrediaeth yn golygu grŵp gwleidyddol o fewn y Senedd nad oes ganddo unrhyw Aelodau yn y Llywodraeth sy'n weithredol ar y pryd (h.y. y weithrediaeth)). Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu y gellir trechu'r cyfyngiadau hyn gan bleidlais fwyafrifol o ddwy ran o dair yn y Senedd.
11. Oni nodir yn wahanol uchod, effaith adran 4 yw bod y dyletswyddau, y pwerau a'r gofynion eraill deddfwriaethol sy'n gymwys i'r Dirprwy Lywydd y mae rhaid ei benodi yng nghyfarfod cyntaf y Senedd o dan adran 25(1)(b) o Ddeddf 2006 hefyd yn gymwys i unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud diwygiadau cysylltiedig i Ddeddf 2006 a deddfwriaeth arall.

### **Adran 5 – Cynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru**

12. Mae adran 5 yn darparu, drwy ddiwygio adran 51 o Ddeddf 2006, ar gyfer cynyddu'r nifer uchaf o Weinidogion Cymru a gaiff ddal swydd ar yr un pryd, o 12 i 17. Mae'r terfyn hwn yn cynnwys Dirprwy Weinidogion (gweler y diffiniad o "Welsh Ministerial Office" yn adran 51 o Ddeddf 2006) ond nid yw'n cynnwys y Prif Weinidog na'r Cwnsler Cyffredinol. Mae adran 5 hefyd yn darparu ar gyfer pŵer i wneud rheoliadau er mwyn cynyddu'r terfyn yn y dyfodol, i nifer uchaf o 19. Ni ellir ond defnyddio'r pŵer i gynyddu'r nifer, ni ellir ei ddefnyddio i leihau'r nifer (yn ymarferol, mae Prif Weinidog bob amser wedi gallu penodi llai o Weinidogion Cymru na'r nifer uchaf gan fod adran 51 yn gosod terfyn ar y nifer uchaf o Weinidogion Cymru yn hytrach na gosod nifer gofynnol o Weinidogion Cymru; nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Ddeddf hon yn effeithio ar hyn). Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau sy'n cynyddu'r terfyn oni fo o leiaf 64 Aelod (h.y. dwy ran o dair o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd, ni waeth pa un a yw unrhyw un neu ragor o'r seddi yn wag adeg y bleidlais) wedi pleidleisio o blaid penderfyniad gan y Senedd i gymeradwyo'r offeryn drafft.

### **Adran 6 – Anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd**

13. Mae adran 6, drwy ddiwygio Atodlen 1A i Ddeddf 2006, yn anghymhwyso person nad yw wedi ei gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn etholaeth Senedd, rhag sefyll ar gyfer etholiad i'r Senedd, neu rhag bod yn Aelod o'r Senedd.

### **Adran 7 – Adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd**

14. Mae adran 7 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gyflwyno cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor i adolygu'r graddau y dylai personau allu dal swydd berthnasol ar y cyd (h.y. 'rhannu swydd') neu ddal swydd berthnasol dros dro tra nad yw'r person sy'n dal y swydd honno ar gael. Mae "swydd berthnasol" yn golygu'r rolau a restrir yn adran 7(3). Rhaid cyflwyno'r cynnig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd gyntaf a etholir ar ôl 7 Tachwedd 2025 (h.y. mae hyn yn cynnwys Senedd a etholir gan etholiad cyffredinol eithriadol a arweiniodd at beidio â chynnal yr etholiad cyffredinol cyffredin sydd wedi ei drefnu ym mis Mai 2026 – gweler adran 5(5) o Ddeddf 2006), ond mewn unrhyw achos, o fewn chwe mis i'r cyfarfod hwnnw.

10. Section 4 also provides for certain restrictions on the Senedd's choice of a second Deputy Presiding Officer. They cannot be from the same political group as either the Presiding Officer or other Deputy Presiding Officer, and they cannot be a Member of a non-executive group if both the Presiding Officer and Deputy Presiding Officer are Members of non-executive groups (a non-executive group means a political group within the Senedd which does not have any Members in the acting Government of the time (i.e. the executive)). However, it also provides that these restrictions can be overridden by a two-thirds majority vote in the Senedd.
11. Unless otherwise stated above, the effect of section 4 is that the legislative duties, powers, and other requirements that apply to the Deputy Presiding Officer that must be appointed at the first meeting of the Senedd under Section 25(1)(b) of the 2006 Act also apply to any additional Deputy Presiding Officer. This section also makes related amendments to the 2006 Act and other legislation.

### **Section 5 - Increase in maximum number of Welsh Ministers**

12. Section 5 provides, by amending section 51 of the 2006 Act, for an increase to the maximum number of Welsh Ministers that can hold office at the same time, from 12 to 17. This limit includes Deputy Ministers (see the definition of "Welsh Ministerial office" in section 51 of the 2006 Act) but does not include the First Minister and Counsel General. Section 5 also provides for a regulation making power for the limit to be increased in the future, to a maximum of 19. The power can only be used to increase the number- it cannot be used to decrease the number (in practice, a First Minister has always been able to appoint fewer Welsh Ministers than the maximum, as section 51 imposes a limit on the number of Welsh Ministers, rather than setting a required number of Welsh Ministers; the amendments made by this Act do not affect this). A statutory instrument containing regulations increasing the limit may not be made unless a resolution of the Senedd approving the draft instrument has been voted for by at least 64 Members (i.e. two-thirds of total number of seats in the Senedd, regardless of whether any seats are empty at the time of the vote).

### **Section 6 - Disqualification from being a Member of the Senedd or a candidate**

13. Section 6, by amending Schedule 1A to the 2006 Act, disqualifies from standing for election to the Senedd, or from being a Member of the Senedd, a person who is not registered in the register of local government electors at an address within a Senedd constituency.

### **Section 7- Review of possible job-sharing of offices relating to the Senedd**

14. Section 7 makes provision requiring the Presiding Officer to table a motion proposing that the Senedd establishes a committee to review the extent to which persons should be able to jointly hold a relevant office (i.e. to 'job-share') or to temporarily hold a relevant office while the person holding that office is unavailable. "Relevant office" means the roles listed in section 7(3). The motion must be tabled as soon as practicable following the first meeting of the first Senedd elected after 7 November 2025 (i.e. this includes a Senedd elected by an extraordinary general election that resulted in the scheduled ordinary general election in May 2026 not taking place – see section 5(5) of the 2006 Act), but in any case, within six months of that meeting.

15. Pe bai'r Senedd yn cytuno y dylid cynnal adolygiad o'r fath, gallai'r adolygiad hwnnw gynnwys ystyriaeth o'r goblygiadau ymarferol a deddfwriaethol. Rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd hefyd gynnig bod y pwyllgor yn llunio adroddiad ar ei adolygiad, gydag argymhellion. Os yw pwyllgor a sefydlir o dan y cynnig hwn yn gosod adroddiad ar ei adolygiad gerbron y Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd sy'n nodi eu hymateb i'r adroddiad ac unrhyw gamau y maent yn bwriadu eu cymryd, a all gynnwys camau deddfwriaethol.

## **RHAN 2 - Y SYSTEM BLEIDLEISIO MEWN ETHOLIADAU CYFFREDINOL Y SENEDD A DYRANNU SEDDI**

16. Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer newid system etholiadol y Senedd fel bod yr holl Aelodau yn cael eu hethol drwy system gyfrannol â rhestr gaeedig, gyda phleidleisiau'n cael eu trosi i seddi drwy ddefnyddio fformiwla D'Hondt. Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddi gwag yn seddi'r Senedd sy'n codi rhwng etholiadau cyffredinol.

### **Adran 8 - Etholiadau cyffredinol**

17. Mae adran 8 yn disodli adrannau 6 i 9 o Ddeddf 2006 i roi effaith i'r system etholiadol newydd. Mae'r cyfeiriadau isod at yr adrannau o Ddeddf 2006 fel y'u hamnewidiwyd.
18. Mae adran 6 o Ddeddf 2006, fel y'i hamnewidiwyd, yn darparu y caiff personau sy'n pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol y Senedd fwrw un bleidlais yn unig - naill ai ar gyfer plaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer yr etholaeth honno, neu ar gyfer ymgeisydd sy'n sefyll yn annibynnol o blaid yn yr etholaeth honno (a elwir yn "individual candidate" ("*ymgeisydd annibynnol*") yn Neddf 2006). O ganlyniad i'r newid o'r system aelodau cymysg gyfrannol y darparwyd ar ei chyfer yn wreiddiol yn Neddf 2006 i system gyfrannol â rhestr gaeedig y darperir ar ei chyfer yn y darpariaethau hyn, caiff pob Aelod ei ethol yn yr un modd a dim ond un bleidlais yr un fydd gan unrhyw bleidleisiwr (yn hytrach na dwy). Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i orchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006 ynghylch cynnal etholiadau Aelodau o'r Senedd, gynnwys enwau pob ymgeisydd a enwebir mewn modd dilys ar gyfer yr etholaeth ar y papur pleidleisio.
19. Mae adran 7 o Ddeddf 2006, fel y'i hamnewidiwyd, yn gwneud darpariaeth ynghylch rhestri o ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd, a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig. Rhaid i restr gynnwys rhwng 1 ac 8 ymgeisydd. Ni ddylai'r rhestr gynnwys person sydd wedi ei gynnwys ar unrhyw restr arall (pa un ai yn yr un etholaeth neu mewn etholaeth arall), neu sy'n sefyll fel ymgeisydd unigol (eto, pa un ai yn yr un etholaeth neu mewn etholaeth arall). Yn yr un modd, ni chaiff person fod yn ymgeisydd unigol os yw hefyd yn ymddangos ar restr unrhyw blaid, neu fel ymgeisydd unigol mewn unrhyw etholaeth arall. Y canlyniad yw na chaiff person ond sefyll fel ymgeisydd unwaith mewn etholiad cyffredinol. Mae'r adran hefyd yn diffinio "constituency returning officer" ("*swyddog canlyniadau etholaethol*").
20. Mae adrannau 8 a 9 fel y'u hamnewididwyd yn nodi'r dull ar gyfer dyrannu seddi sy'n cynnwys cymhwyso dull d'Hondt.

15. If it were agreed by the Senedd that such a review is to be undertaken, that review could include consideration of both the practical and legislative implications. The motion tabled by the Presiding Officer must also propose that the committee prepares a report on its review, with recommendations. If a committee established under this motion lays a report on its review before the Senedd, the Welsh Ministers must lay a statement before the Senedd setting out their response to the report and any steps they propose to take, which may include legislative steps.

## **PART 2 – VOTING SYSTEM AT SENEDD GENERAL ELECTIONS AND ALLOCATION OF SEATS**

16. This Part provides for changing the Senedd’s electoral system so that all Members are elected through a closed list proportional system, with votes translated into seats using the D’Hondt formula. This Part also makes provision concerning vacancies in Senedd seats that arise between general elections.

### **Section 8 - General elections**

17. Section 8 substitutes sections 6 to 9 of the 2006 Act to give effect to the new electoral system. The references below are to the sections of the 2006 Act as substituted.
18. Section 6 of the 2006 Act, as substituted, provides that persons voting in Senedd general elections may cast one vote only - either for a registered political party that has submitted a list of candidates for that constituency, or for a candidate standing independently of a party in that constituency (called an “individual candidate” in the 2006 Act). In consequence of the change from the mixed member proportional system originally provided for under the 2006 Act to the closed list proportional system provided for in these provisions, all Members will be elected in the same way and voters will have only one vote (rather than two). This section also requires that an order made under section 13 of the 2006 Act about the conduct of elections of Members of the Senedd must require that the names of all validly nominated candidates for the constituency are included on the ballot paper.
19. Section 7 of the 2006 Act, as substituted, makes provision about lists of candidates standing at a Senedd general election, submitted by registered political parties. A list must contain between 1 and 8 candidates. The list must not include a person who is included on any other list (whether in the same constituency or another), or who is standing as an individual candidate (again, whether in the same constituency or another). Similarly, a person may not be an individual candidate if they also appear on any party list, or as an individual candidate in any other constituency. The result is that a person may only stand once as a candidate at a general election. The section also defines “constituency returning officer.”
20. Substituted sections 8 and 9 set out the method for allocating seats, which involves applying the d’Hondt method.

21. Mae adran 8 fel y'i hamnewidiwyd o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer cyfrifo'r "seat allocation figure" ("*ffigur dyrannu seddi*"). Mae seddi i'w dyrannu yn eu tro i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r ffigur dyrannu seddi uchaf (adran 9(1) a (2) fel y'i hamnewidiwyd).
22. Ar gyfer ymgeisydd unigol, y ffigur dyrannu seddi yw cyfanswm y pleidleisiau a gafwyd gan yr ymgeisydd hwnnw. Ar gyfer plaid sy'n sefyll mewn etholaeth, dyma gyfanswm y pleidleisiau a gafwyd gan y blaid yn yr etholaeth honno, wedi ei rhannu gan y "seat allocation divisor" ("*rhannydd dyrannu seddi*"). I ddechrau mae'r rhannydd dyrannu seddi yn un, sy'n golygu mai'r ffigur dyrannu seddi cyntaf ar gyfer plaid yw cyfanswm y pleidleisiau y mae wedi eu cael yn yr etholaeth.
23. Felly, dyrennir y cyntaf o'r 6 sedd ar gyfer yr etholaeth i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol a gafodd y mwyaf o bleidleisiau.
24. Mae adran 9 fel y'i hamnewidiwyd o Ddeddf 2006 yn darparu ar gyfer ail-gyfrifo ffigur dyrannu seddi plaid gyda rhannydd mwy wrth ddyrannu'r ail i'r chweched sedd pe bai'r sedd flaenorol wedi ei dyrannu i'r blaid. Felly, i ddyrannu'r ail sedd, os dyrannwyd y sedd gyntaf i blaid, rhaid ail-gyfrifo ffigur dyrannu seddi y blaid honno drwy ychwanegu un at ei rhannydd dyrannu seddi blaenorol (h.y. mae'r rhannydd yn troi'n 2). Yna, caiff yr ail sedd ei dyrannu i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol gyda'r ffigur dyrannu seddi uchaf. Er enghraifft, pe bai Plaid A wedi ennill 50,000 o bleidleisiau mewn etholaeth, ac roedd hyn yn ddigon i'r sedd gyntaf gael ei dyrannu i Blaid A, yna wrth ddyrannu'r ail sedd, byddai'r 50,000 yn cael ei rannu â  $1+1=2$ , gan roi ffigur dyrannu seddi o 25,000 ar gyfer Plaid A.
25. Yna, cynhelir y broses hon eto ar gyfer y seddi sy'n weddill, gydag ailgyfrifiad yn digwydd bob tro y dyrannwyd sedd flaenorol i blaid. Felly, gan gymryd yr enghraifft uchod, os 25,000 oedd y ffigur dyrannu seddi uchaf wrth ddyrannu'r drydedd sedd, byddai'n cael ei ddyrannu i Blaid A a byddai ei ffigur dyrannu seddi, wrth ddyrannu'r bedwaredd sedd, yn 50,000 wedi ei rannu â 3 (rhannydd dyrannu seddi blaenorol o  $2+1$ ), gan roi ffigur dyrannu seddi o 16,666.666 (cylchol). Dyrennir y bedwaredd sedd i Blaid A os oes gan y pleidiau eraill ac unrhyw ymgeiswyr unigol ffigurau dyrannu seddi is (nid yw'r ffigurau wedi eu talgrynnu) neu os ydynt i'w diystyru yn y rownd honno (gweler y paragraff nesaf).
26. Caiff unrhyw ymgeisydd unigol y dyrannwyd sedd iddo ei ddiystyru mewn unrhyw rowndiau dilynol. Yn yr un modd, os yw seddi'n cael eu dyrannu i blaid ar gyfer yr holl ymgeiswyr ar ei rhestr, mae'r blaid honno'n cael ei diystyru mewn unrhyw rowndiau dilynol.
27. Rhaid i blaid lenwi'r seddi y dyrannwyd hwy iddi gyda'r ymgeiswyr sy'n ymddangos ar ei rhestr yn y drefn y maent yn ymddangos ar y rhestr honno.

21. Substituted section 8 of the 2006 Act provides for the calculation of the “seat allocation figure”. Seats are to be allocated in turn to the party or individual candidate with the highest seat allocation figure (substituted section 9(1) and (2)).
22. For an individual candidate, the seat allocation figure is the total number of votes received by that candidate. For a party standing in a constituency, it is the total number of votes received by the party in that constituency, divided by the “seat allocation divisor”. Initially the seat allocation divisor is one, meaning that the first seat allocation figure for a party is the total number of votes it has received in the constituency.
23. Therefore the first of the 6 seats for the constituency is allocated to the party or individual candidate that received the most votes.
24. Substituted section 9 of the 2006 Act provides for the recalculation of a party’s seat allocation figure with an increased divisor when allocating the second to sixth seats if the party was allocated the previous seat. So, to allocate the second seat, if the first seat was allocated to a party, that party’s seat allocation figure must be recalculated by adding one to its previous seat allocation divisor (i.e. the divisor becomes 2). The second seat is then allocated to the party or individual candidate with the highest seat allocation figure. For example, if Party A had won 50,000 votes in a constituency, and this was enough for the first seat to be allocated to Party A, then when allocating the second seat, the 50,000 would be divided by  $1+1=2$ , giving a seat allocation figure for Party A of 25,000.
25. This process is then carried out again for the remaining seats, with a recalculation taking place each time a party was allocated the previous seat. So, taking the example above, if 25,000 was the highest seat allocation figure when allocating the third seat, it would be allocated to Party A and its seat allocation figure, when allocating the fourth seat, would be 50,000 divided by 3 (previous seat allocation divisor of  $2 + 1$ ), giving a seat allocation figure of 16,666.666 (recurring). Party A will be allocated the fourth seat if the other parties and any individual candidates all have lower seat allocation figures (the figures are not rounded off) or if they are to be disregarded in that round (see next paragraph).
26. Any individual candidate to whom a seat has been allocated is disregarded in any subsequent rounds. Similarly, if a party is allocated seats for all the candidates on its list, that party is disregarded in any subsequent rounds.
27. A party must fill the seats that it is allocated with the candidates that appear on its list in the order in which they appear on that list.

28. Mewn achos o ffigur dyrannu seddi cyfartal mewn unrhyw rownd ar gyfer dwy neu ragor o bleidiau neu ymgeiswyr unigol, mae sedd i'w dyrannu i bob un o'r pleidiau neu'r ymgeiswyr hynny ar yr amod bod digon o seddi yn weddill. Os nad oes digon o seddi yn weddill, yna mae'r nifer seddi cyfartal i'w dorri fel a ganlyn:
- mae'r ffigur dyrannu seddi ar gyfer y pleidiau neu'r ymgeiswyr unigol cyfartal yn cael ei ailgyfrifo drwy ychwanegu un at gyfanswm nifer y pleidleisiau a gafwyd. O ran ymgeisydd unigol, mae hyn yn syml yn golygu ychwanegu un at nifer y pleidleisiau a gafodd yr ymgeisydd. O ran plaid, mae hyn yn golygu ychwanegu un at gyfanswm nifer y pleidleisiau a gafwyd gan y blaid yn yr etholaeth ac yna rhannu'r rhif hwnnw â rhannydd dyrannu seddi'r blaid. Er enghraifft, os cafodd plaid 50,000 o bleidleisiau yn yr etholaeth a bod dwy sedd wedi eu dyrannu iddi hyd yma, byddai 50,001 yn cael ei rannu â rhannydd dyrannu seddi'r blaid o 3 i gael 16,667;
  - os yw'r ffigur dyrannu seddi diwygiedig yn torri'r nifer seddi cyfartal, yna dyrennir y sedd (neu'r seddi) sy'n weddill yn y dull arferol, sef i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r ffigur dyrannu seddi uchaf.
29. Os bydd ffigur dyrannu seddi cyfartal yn parhau, yna rhaid i'r swyddog canlyniadau etholaethol ei ddatrys drwy lotiau.

### **Adran 9 – Seddi gwag**

30. Mae adran 9 yn diwygio Deddf 2006 er mwyn nodi'r sefyllfa ynghylch swyddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau (er enghraifft, o ganlyniad i ymddiswyddiad Aelod o'r Senedd) o dan y system gyfrannol â rhestr gaeedig. Mae'n diddymu adran 10 o Ddeddf 2006 (a oedd yn darparu ar gyfer cynnal is-etholiadau mewn cysylltiad â seddi gwag mewn etholaethau) ac yn rhoi adran 11 newydd yn lle'r un bresennol (a oedd yn darparu'n wreiddiol ar gyfer llenwi seddi gwag Aelodau o'r Senedd rhanbarthol).
31. Mae'r adran 11 fel y'i hamnewidiwyd o Ddeddf 2006 yn darparu, os bydd sedd a ddelir gan Aelod a ddychwelwyd o restr plaid yn dod yn wag, y caiff y swydd wag ei llenwi gan y person uchaf ar y rhestr honno sy'n bodloni'r amodau a ganlyn ac sydd heb ei ddychwelyd eisoes (ac at y dibenion hyn mae canlyniad di-rym, a fyddai'n wir pe bai'r person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd adeg y canlyniad, yn cyfrif fel canlyniad). Yr amodau yw bod y person yn fodlon gwasanaethu ac yn achos person nad yw'n aelod o'r blaid, nad yw'r blaid wedi rhoi rhybudd i'r swyddog canlyniadau etholaethol nad yw'n dymuno i'r person hwnnw lenwi'r swydd wag. Mater i'r swyddog canlyniadau etholaethol yw rhoi gwybod i'r Llywydd am enw'r person (os oes un) sydd i lenwi'r swydd wag.
32. Os nad oes ymgeiswyr yn weddill ar restr y blaid sy'n gymwys ar yr adeg honno i lenwi'r swydd wag, neu os yw'r Aelod o'r Senedd y mae ei sedd wedi dod yn wag wedi ei ddychwelyd fel ymgeisydd unigol, bydd y sedd yn aros yn wag hyd nes yr etholiad cyffredinol nesaf.

### **Adran 10 – Diwygiadau cysylltiedig**

33. Mae adran 10 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 2006 a deddfwriaeth arall, sy'n codi o'r trefniadau newydd o dan y Ddeddf ar gyfer dychwelyd y Senedd a'i chynnal.

28. In the event of a tie in any round in the seat allocation figure for two or more parties or individual candidates, a seat is to be allocated to each of those parties or candidates provided there are enough remaining seats. If there are insufficient seats remaining, then the tie is to be broken as follows:
- the seat allocation figure for the tied parties or individual candidates is recalculated by adding one to the total number of votes that they received. For an individual candidate, this simply involves adding one to the number of votes the candidate received. For a party, this involves adding one to the total number of votes the party received in the constituency and then dividing that number by the party's seat allocation divisor. For example, if a party had received 50,000 votes in the constituency and had so far been allocated two seats, 50,001 would be divided by the party's seat allocation divisor of 3, to get 16,667;
  - if the revised seat allocation figure breaks the tie, then the remaining seat is (or seats are) allocated in the usual way, namely to the party or individual candidate with the highest seat allocation figure.
29. If a tie remains, then the constituency returning officer must resolve it by lots.

### **Section 9 - Vacant seats**

30. Section 9 amends the 2006 Act so as to set out the position regarding vacancies arising between elections (that may arise, for example, as a result of a Member of the Senedd's resignation) under the closed list proportional system. It repeals section 10 of the 2006 Act (which provided for the holding of by-elections in respect of vacancies in constituency seats) and substitutes section 11 (which originally provided for the filling of vacant seats of regional Senedd Members).
31. Substituted section 11 of the 2006 Act provides that if a seat held by a Member who was returned from a party list becomes vacant, the vacancy is to be filled by the highest-placed person on that list who meets the following conditions and who has not already been returned (and for these purposes a void return, which would be the case if the person was disqualified from being a Member of the Senedd at the time of return, counts as a return). The conditions are that the person is willing to serve, and in the case of person who is not a member of the party, the party has not given notice to the constituency returning officer that it does not wish that person to fill the vacancy. It is for the constituency returning officer to notify the Presiding Officer of the name of the person (if any) who is to fill the vacancy.
32. If there are no candidates remaining on the party's list who are eligible at that time to fill the vacancy, or if the Member of the Senedd whose seat has become vacant was returned as an individual candidate, the seat will remain vacant until the next general election.

### **Section 10 - Related amendments**

33. Section 10 makes amendments to the 2006 Act and other legislation, arising from the new arrangements under the Act for returning and maintaining the Senedd.

### **RHAN 3 - COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

34. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaethau o adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, ac ar gyfer y newid enw cysylltiedig. Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer y newidiadau hynny drwy ddiwygio Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a gwneud newidiadau tebyg i enw byr y Ddeddf honno.

#### **Adran 11 - Ailenwi Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013**

35. Mae adran 11 yn gwneud darpariaeth i newid enw byr Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 i adlewyrchu'r diwygiadau a wneir iddi gan y Ddeddf hon. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf sy'n diwygio deddfiadau amrywiol o ganlyniad i'r adran hon.

#### **Adran 12 - Ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

36. Mae adran 12 yn newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol a roddir iddo gan y Rhan hon o'r Ddeddf. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf sy'n diwygio deddfiadau amrywiol o ganlyniad i'r adran hon.

### **ATODLEN 1: MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL SY'N YMWNEUD Â RHAN 3**

37. Cyflwynir Atodlen 1 gan adrannau 11 a 12.
38. Mae'r Atodlen hon yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â newid enw byr Deddf 2013 a newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

#### **Adran 13 - Nifer aelodau'r Comisiwn**

39. Mae adran 13 yn cynyddu uchafswm nifer aelodau'r Comisiwn o bump i naw (gan gynnwys y cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd). Mae hyn yn cydnabod y cynnydd disgwylidig yn llwyth gwaith y Comisiwn o ganlyniad i'w swyddogaethau estynedig.

#### **Adran 14 - Personau na chaniateir iddynt fod yn aelodau o'r Comisiwn neu'n brif weithredwr arno**

40. Mae adran 14 yn estyn y rhestrau o bersonau na chaniateir iddynt fod yn aelodau o'r Comisiwn neu'n brif weithredwr arno gyda'r bwriad o sicrhau didueddrwydd wrth arfer ei swyddogaethau o adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd.

#### **Adran 15 - Cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Comisiwn**

41. Mae adran 15 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn o'r gofyniad statudol presennol o dri. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu cynnydd neu ostyngiad yn y nifer cworwm, ar yr amod nad yw unrhyw ostyngiad yn newid y cworwm i nifer sy'n llai na thri. Mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

### **PART 3 – DEMOCRACY AND BOUNDARY COMMISSION CYMRU**

34. This Part makes provision for the conferral of Senedd constituency boundary review functions on the Local Democracy and Boundary Commission for Wales, and for its related change of name. This Part provides for those changes by amending the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 and making a similar change to the short title of that Act.

#### **Section 11 - Renaming the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013**

35. Section 11 makes provision to change the short title of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 to the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 to reflect the amendments being made to it by this Act. This section also introduces Part 1 of Schedule 1 to the Act which makes amendments to various enactments in consequence of this section.

#### **Section 12 - Renaming the Local Democracy and Boundary Commission for Wales**

36. Section 12 changes the name of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales to the Democracy and Boundary Commission Cymru to reflect the additional responsibilities given to it by this Part of the Act. This section also introduces Part 2 of Schedule 1 to the Act which makes amendments to various enactments in consequence of this section.

### **SCHEDULE 1: MINOR AND CONSEQUENTIAL AMENDMENTS RELATING TO PART 3**

37. Schedule 1 is introduced by sections 11 and 12.
38. This Schedule makes minor and consequential amendments relating to both the change of short title of the 2013 Act and the change of name of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales to Democracy and Boundary Commission Cymru.

#### **Section 13 - Number of members of the Commission**

39. Section 13 increases the maximum number of members of the Commission from five to nine (including the chair and deputy chair). This is in recognition of the expected increase in the workload of the Commission) in consequence of its expanded functions.

#### **Section 14 - Persons who may not be members or chief executive of the Commission**

40. Section 14 expands the lists of persons who may not be members of the Commission or chief executive of the Commission, with a view to ensuring impartiality when exercising its Senedd constituency boundary review functions.

#### **Section 15 - Quorum for meetings of the Commission**

41. Section 15 makes provision for a regulation-making power enabling the Welsh Ministers to change the quorum for meetings of the Commission from the current statutory requirement of three. This power permits an increase or decrease in the quorum number, provided that any decrease does not change the quorum to a number lower than three. Regulations made under this power are subject to the affirmative procedure.

## **Adran 16 – Comisiynwyr cynorthwyol**

42. Mae adran 16 yn darparu y caiff y Comisiwn benodi un neu ragor o gomisiynwyr cynorthwyol y caiff ddirprwyo ei swyddogaethau iddo neu iddynt yn unol ag adran 13 o Ddeddf 2013. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud newidiadau i'r rhestr o'r personau na chaniateir iddynt fod yn gomisiynwyr cynorthwyol, i gyd-fynd â'r diwygiadau a wneir gan adran 14 i'r rhai na chaniateir iddynt fod yn aelodau o'r Comisiwn o dan y Ddeddf. Mae'r adran hon hefyd yn darparu bod comisiynwyr cynorthwyol wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd (a oedd yn wir, ac sy'n parhau'n wir, ar gyfer aelodau o'r Comisiwn a phrif weithredwr y Comisiwn).

## **RHAN 4 – ADOLYGU FFINIAU ETHOLAETHAU'R SENEDD**

### **Adran 17 – Etholaethau'r Senedd ar gyfer etholiad cyffredinol a gynhelir ar ôl 6**

#### **Ebrill 2026 a chyn i reoliadau o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith**

43. Mae adran 17 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch etholaethau'r Senedd yr etholir Aelodau o'r Senedd drostynt mewn etholiad cyffredinol a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 a chyn i'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith (gweler is-adran (8) o'r adran honno; mewnosodir yr adran honno yn Neddf 2013 gan Atodlen 3 i'r Ddeddf hon).

## **ATODLEN 2: ETHOLAETHAU'R SENEDD AR GYFER YR ETHOLIAD CYFFREDINOL CYNTAF AR ÔL 6 EBRILL 2026**

44. Cyflwynir Atodlen 2 gan adran 17.

45. Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer y Comisiwn (fel sydd wedi ei ailenwi gan y Ddeddf hon) i gynnal adolygiad i sefydlu etholaethau Senedd newydd y bydd Aelodau o'r Senedd i'w hethol iddynt yn yr etholiad cyffredinol sydd i'w gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026 a chyn i'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith, oherwydd newidiadau i system etholiadol y Senedd. Mae'n nodi'r rheolau a'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn eu dilyn wrth benderfynu ar yr etholaethau hynny.

### *Etholiadau y mae'r Atodlen hon yn gymwys iddynt*

46. Mae paragraff 1 yn nodi bod yr Atodlen hon yn gwneud darpariaeth ynghylch yr etholaethau yr etholir Aelodau o'r Senedd drostynt mewn etholiad cyffredinol a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026. Golyga hyn y bydd yr Atodlen yn gymwys mewn perthynas ag etholiad cyffredinol y Senedd a gynhelir hyd at un mis calendr yn gynt na dyddiad yr etholiad cyffredinol cyffredin a amserlennir ar 7 Mai 2026. Mae'r paragraff hwn hefyd yn nodi y bydd etholaethau'r Senedd y darperir ar eu cyfer o dan yr Atodlen hon yn parhau ar waith hyd nes y bydd rheoliadau o dan adran 49J o Ddeddf 2013 (sy'n adran yn Rhan 3A o'r Ddeddf honno, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 3 i'r Ddeddf hon) yn cymryd effaith, neu os caiff yr etholaethau eu newid fel arall o dan unrhyw ddeddfiad.

### **Section 16 - Assistant commissioners**

42. Section 16 provides that the Commission may appoint one or more assistant commissioners to whom it may delegate functions in accordance with section 13 of the 2013 Act. This section also makes changes to the list of persons who may not be assistant commissioners, to align with the amendments made by section 14 to those who may not be members of the Commission under the Act. This section also provides that assistant commissioners are disqualified from being a Member of the Senedd or a candidate to be a Member of the Senedd (which was, and remains, the case for members of the Commission and the chief executive of the Commission).

## **PART 4 - SENEDD CONSTITUENCY BOUNDARY REVIEWS**

### **Section 17 - Senedd constituencies for a general election held after 6 April 2026 and before regulations under section 49J of the 2013 Act take effect**

43. Section 17 introduces Schedule 2 which makes provision about the Senedd constituencies for which Members of the Senedd will be elected at a general election held after 6 April 2026 and before the first set of regulations made under section 49J of the 2013 Act take effect (see subsection (8) of that section; that section is inserted into the 2013 Act by Schedule 3 to this Act).

### **SCHEDULE 2: SENEDD CONSTITUENCIES FOR FIRST GENERAL ELECTION AFTER 6 APRIL 2026**

44. Schedule 2 is introduced by section 17.
45. This Schedule makes provision for the Commission (as renamed by this Act) to carry out a review to establish new Senedd constituencies for which Members of the Senedd will be elected at the general election to be held after 6 April 2026 and before the first set of regulations made under section 49J of the 2013 Act takes effect, due to changes to the Senedd's electoral system. It sets out the rules and processes the Commission must follow to determine those constituencies.

#### *Elections in relation to which this Schedule applies*

46. Paragraph 1 states that this Schedule makes provision about the constituencies for which Members of the Senedd will be elected at a general election held after 6 April 2026. This means the Schedule will apply in relation to a Senedd general election taking place up to one calendar month earlier than the scheduled ordinary general election date of 7 May 2026. This paragraph also states that the Senedd constituencies provided for under this Schedule will remain in place until regulations under section 49J of the 2013 Act (which is a section in Part 3A of that Act, as inserted by Schedule 3 to this Act) take effect, or the constituencies are otherwise changed under any enactment.

*Etholaethau'r Senedd ac adolygiad ffiniau 2026*

47. Mae paragraff 2 yn darparu bod rhaid i bob etholaeth Senedd a sefydlir o dan yr Atodlen hon gynnwys dwy o etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad yn unol â'r Atodlen ac mae'n rhestru'r penderfyniadau y mae rhaid i'r Comisiwn eu gwneud yn yr adolygiad ffiniau hwn. Y rhain yw: pa etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol a gyfunir i greu ardaloedd yr 16 o etholaethau'r Senedd, enwau'r etholaethau hynny (gweler mwy ym paragraff 5 o Atodlen 2) a pha un a yw pob etholaeth yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.

*Hysbysiad cychwyn adolygiad ffiniau 2026*

48. Mae paragraff 3 yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi hysbysiad unwaith y mae'r adolygiad wedi cychwyn (yn unol â pharagraff 14, sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw beth a gyhoeddir o dan yr Atodlen gael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn, ac mewn unrhyw fodd arall y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol) a bod rhaid i'r hysbysiad hwnnw bennu'r dyddiad y cychwynnodd yr adolygiad arno. Mae'r paragraff hwn hefyd yn diffinio "dyddiad yr adolygiad" at ddibenion Atodlen 2 drwy gyfeirio at y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad cychwyn.

*Y materion y caiff y Comisiwn eu hystyried yn adolygiad ffiniau 2026*

49. Mae paragraff 4 yn rhestru'r ffactorau y caiff y Comisiwn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am gyfuniadau etholaethau seneddol y DU fel rhan o'r adolygiad ffiniau hwn. Y rhain yw: ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli; ystyriaethau daearyddol arbennig; ac unrhyw glymau lleol (gan gynnwys clymau lleol sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri gan y cyplysiadau arfaethedig.

*Penderfynu ar enwau etholaethau'r Senedd*

50. Mae paragraff 5 yn nodi sut y dylid penderfynu ar enwau etholaethau'r Senedd, a'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd wrth benderfynu ar yr enwau hynny, gan gynnwys ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff unrhyw enw arfaethedig. Rhaid i'r etholaethau gael enw unigol i'w ddefnyddio yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai yr ystyrir hyn yn annerbyniol gan y Comisiwn. Os felly, caniateir rhoi enwau gwahanol ar etholaethau i'w defnyddio wrth gyfathrebu'n Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd enwau gwahanol, mae'n ofynnol cynnwys y ddau enw yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau'r Comisiwn.

*Adroddiad cychwynnol ar adolygiad ffiniau 2026 a'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau*

51. Mae paragraff 6(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wneud adroddiad cychwynnol wedi iddo gyhoeddi'r hysbysiad cychwyn ac ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig, ac sy'n manylu ynghylch yr hyn y mae rhaid i'r adroddiad hwnnw ei gynnwys. Mae paragraff 6(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn (ymysg pethau eraill) gyhoeddi'r adroddiad cychwynnol a gwahodd sylwadau arno. Mae'r paragraff hwn hefyd yn darparu mai'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau yw cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddir yr adroddiad cychwynnol. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn (ac ni chyfyngir yr ymgynghoriad hwn i orgraff yr enwau arfaethedig).

*Senedd constituencies and the 2026 boundary review*

47. Paragraph 2 provides that each Senedd constituency established under this Schedule is to consist of two contiguous UK parliamentary constituencies in Wales. It requires the Commission to conduct a review in accordance with the Schedule and lists the determinations the Commission must make in this boundary review. These are: which contiguous UK parliamentary constituencies in Wales are to be combined to create the 16 Senedd constituencies; the names of those constituencies (see further paragraph 5 of Schedule 2); and whether each constituency is a county or borough constituency.

*Notice of commencement of 2026 boundary review*

48. Paragraph 3 provides that the Commission must publish a notice once the review has commenced (in accordance with paragraph 14, which requires that anything published under the Schedule must be published on the Commission's website, and in such other manner as the Commission considers appropriate) and that such notice must specify the date that the review commenced. This paragraph also defines "review date" for the purpose of Schedule 2 by reference to the date specified in the notice of commencement.

*Matters the Commission may take into account in the 2026 boundary review*

49. Paragraph 4 lists factors the Commission may take into account in making determinations about the combinations of UK parliamentary constituencies as part of this boundary review. These are: existing local government boundaries; special geographical considerations; and any local ties (including local ties connected to the use of the Welsh language) that would be broken by the proposed pairings.

*Determining the names of the Senedd constituencies*

50. Paragraph 5 sets out how the names of Senedd constituencies are to be determined, and the actions the Commission must take when determining those names, including consultation with the Welsh Language Commissioner on the orthography of any names proposed. Constituencies must have a single name for use in Welsh and English, unless the Commission consider this to be unacceptable. If so, constituencies may have different names for use in communication through Welsh and English. If there are different names, there is a requirement to include both names in the Welsh and English versions of the Commission's reports.

*Initial report on the 2026 boundary review and first period for representations*

51. Paragraph 6(1) requires the Commission to make an initial report after it has published the notice of commencement and consulted the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed names, and details what that report must contain. Paragraph 6(2) requires the Commission to (amongst other things) publish the initial report and invite representations on it. This paragraph also provides that the first period for representations is a period of four-weeks beginning on the date the initial report is published. The Commission must consult with the Welsh Language Commissioner during this period (and this consultation is not restricted to the orthography of the proposed names).

*Ail adroddiad ar adolygiad ffiniau 2026 a'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau*

52. Mae paragraff 7 yn nodi'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd ar ôl y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau, sef gofyniad i gyhoeddi'r sylwadau a gafwyd, ystyried ei gynnwys gan roi sylw i'r sylwadau hynny ac ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed ganddo ar orgraff yr enwau arfaethedig os cynigir unrhyw newidiadau i enwau'r etholaethau. Ar ôl cymryd y camau sydd eu hangen a amlinellir ym mharagraff 7(1), mae paragraff 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wneud ail adroddiad ac maen manylu ynghylch yr hyn y dylai'r adroddiad ei gynnwys. Mae paragraff 7(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn (ymysg pethau eraill) gyhoeddi'r ail adroddiad a gwahodd sylwadau arno. Mae paragraff 7(5) yn darparu mai'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau yw cyfnod o bedair wythnos ac maen dechrau ar y dyddiad y cyhoeddir yr ail adroddiad. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn (ac ni chyfyngir yr ymgynghoriad hwn i orgraff yr enwau arfaethedig). Mae paragraff 7(6) yn nodi'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd ar ôl yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, sy'n adlewyrchu'r camau y mae rhaid eu cymryd ar ôl y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau.

*Adroddiad terfynol ar adolygiad ffiniau 2026*

53. Mae paragraff 8 yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn, cyn 1 Ebrill 2025, wneud adroddiad terfynol ar adolygiad ffiniau 2026, a'i gyhoeddi, ac anfon yr adroddiad hwn at Weinidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad gadarnhau pa etholaethau seneddol y DU a gyfunwyd i greu'r 16 o etholaethau y Senedd, enw pob etholaeth a pha un a yw pob etholaeth yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Rhaid i'r adroddiad bennu manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad ac esbonio pam y gwnaed y newidiadau hynny. Mae'r paragraff hwn yn darparu nad yw methu â chyflwyno adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru erbyn 1 Ebrill 2025 yn gwneud yr adroddiad yn annilys. Mae'r paragraff hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt gael yr adroddiad.

*Gweithredu'r adroddiad terfynol gan Weinidogion Cymru*

54. Mae paragraff 9 yn nodi'r manylion o sut y dylid gweithredu'r adroddiad terfynol. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhoi effaith i'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 14 o wythnosau i'r dyddiad y gosodir yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Pan na wneir rheoliadau yn ystod y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn 14 o wythnosau i'r dyddiad y gosodir yr adroddiad terfynol, osod datganiad yn nodi'r amgylchiadau eithriadol. Rhaid i Weinidogion Cymru barhau i osod datganiadau o'r fath bob pedair wythnos hyd nes bod y rheoliadau wedi eu gwneud. Nid yw rheoliadau o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn yn y Senedd, ond rhaid gosod yr offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau gerbron y Senedd. Mae'r paragraff hwn hefyd yn cynnwys darpariaeth drosiannol i sicrhau nad yw rheoliadau a wnaed oddi tano yn cael effaith hyd nes y diddymir y Senedd cyn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026. Mae hyn yn sicrhau y gall yr etholaethau newydd gael eu creu mewn cyfraith, ond nid yw hyn yn effeithio ar ddychwelyd aelodau na chyfansoddiad y Senedd cyn etholiad pan fydd y system newydd y darparwyd ar ei chyfer gan y Ddeddf hon yn cymryd effaith.

*Second report on the 2026 boundary review and second period for representations*

52. Paragraph 7 sets out actions the Commission must take following the first period for representations. These are: a requirement to publish the representations received, to consider its proposals having regard to those representations and to consult and have regard to any representations made by the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed names if any changes to the constituency names are proposed. Having taken the necessary steps outlined in paragraph 7(1), paragraph 7(2) requires the Commission to make a second report and details what the report should contain. Paragraph 7(3) requires the Commission to (amongst other things) publish the second report and invite representations on it. Paragraph 7(5) provides that the second period for representations is a period of four weeks and begins on the date that the second report is published. The Commission must consult with the Welsh Language Commissioner during this period (and this consultation is not restricted to the orthography of the proposed names). Paragraph 7(6) sets out the actions the Commission must take following the second period for representations, which mirror the actions to be taken following the first period for representations.

*Final report on the 2026 boundary review*

53. Paragraph 8 provides that the Commission must, before 1 April 2025, make and publish a final report on the 2026 boundary review, and send this report to the Welsh Ministers. The report must confirm which of the UK parliamentary constituencies have been combined to create the 16 Senedd constituencies, the name of each constituency (and whether each constituency is a county or borough constituency. The report must specify the detail of any changes to the proposals set out in the second report and explain why such changes have been made. This paragraph provides that a failure to submit a final report to the Welsh Ministers by 1 April 2025 does not render the report invalid. This paragraph also requires the Welsh Ministers to lay the final report before the Senedd as soon as reasonably practicable following receipt of the report.

*Implementation of final report by the Welsh Ministers*

54. Paragraph 9 sets out details of how the final report is to be implemented. The Welsh Ministers must make regulations implementing the determinations in the Commission's final report as soon as reasonably practicable and in any event within 14 weeks of laying of the final report before the Senedd, unless there are exceptional circumstances. Where regulations are not made in that time period, the Welsh Ministers must, within 14 weeks of laying the final report, lay a statement setting out the exceptional circumstances. The Welsh Ministers must continue to lay such statements every 4 weeks until the regulations are made. Regulations under this paragraph are not subject to any procedure in the Senedd, but the statutory instrument containing the regulations must be laid before the Senedd. This paragraph also contains a transitional provision to ensure that regulations made under it do not have effect until the dissolution of the Senedd in anticipation of the first general election held after 6 April 2026. This ensures that the new constituencies can be created in law, but this does not affect the return of members or the constitution of the Senedd before an election at which the new system provided for by this Act will take effect.

*Addasu'r adroddiad terfynol gan y Comisiwn*

55. Mae paragraff 10 yn nodi'r camau y caiff neu y mae rhaid i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru eu cymryd os, ar ôl i'r adroddiad gael ei osod gerbron y Senedd ond cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan baragraff 9, yw'r Comisiwn yn ystyried bod angen addasu'r adroddiad i gywiro gwall neu wallau mewn cysylltiad â materion a nodir ym mharagraff 8(2); mae hyn yn cynnwys cyhoeddi datganiad gan y Comisiwn yn pennu'r addasiadau a'r rhesymau dros eu gwneud, y mae rhaid i Weinidogion Cymru eu gosod gerbron y Senedd. Mae paragraff 10(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi effaith i'r adroddiad terfynol a'r addasiadau a nodir yn y datganiad o dan baragraff 10(2) wrth wneud rheoliadau o dan baragraff 9.

*Dirprwyo swyddogaethau gan y Comisiwn o dan yr Atodlen hon*

56. Mae paragraff 11 yn darparu y caiff y swyddogaethau adolygu ffiniau'r Senedd yn yr Atodlen hon gael eu dirprwyo gan y Comisiwn yn unol ag adran 13(1) o Ddeddf 2013.

*Ni chaff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn ynghylch swyddogaethau o dan yr Atodlen hon*

57. Mae paragraff 12 yn darparu na chaniateir i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn o dan adran 14 o Ddeddf 2013 sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau adolygu ffiniau'r Senedd (fel y darperir ar eu cyfer gan yr Atodlen hon).

*Dehongli*

58. Mae paragraff 13 yn diffinio termau a ddefnyddir yn yr Atodlen hon.
59. Fel y nodir uchod, mae paragraff 14 yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi hysbysiad, adroddiad neu ddogfen arall ar wefan y Comisiwn, ac mewn unrhyw fodd arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

**Adran 18 - Etholaethau'r Senedd ar gyfer etholiadau cyffredinol a gynhelir ar ôl i reoliadau o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith**

60. Mae adran 18 yn cyflwyno Atodlen 3, sy'n mewnosod Rhan 3A newydd yn Neddf 2013 sy'n gwneud darpariaeth am etholaethau'r Senedd yr etholir Aelodau o'r Senedd drostynt mewn etholiadau cyffredinol a gynhelir ar ôl i'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith.

**ATODLEN 3: RHAN NEWYDD 3A O DDEDDF 2013**

61. Cyflwynir Atodlen 3 gan adran 18.
62. Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn gynnal adolygiadau rheolaidd o ffiniau etholaethau'r Senedd y bydd Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol drostynt mewn etholiadau cyffredinol i'w cynnal ar ôl i'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith. Mae'n nodi'r rheolau a'r prosesau y mae rhaid i'r Comisiwn eu dilyn wrth adolygu'r ffiniau ac wrth benderfynu ar ba newidiadau i'w gwneud.

*Rhan 3A o Ddeddf 2013*

63. Mae paragraff 1 o Atodlen 3 yn mewnosod Rhan 3A newydd yn Neddf 2013, fel a nodir yn y paragraffau isod:

*Modification of final report by the Commission*

55. Paragraph 10 sets out the steps the Commission and the Welsh Ministers may or must take if, after the report has been laid before the Senedd but before regulations have been made under paragraph 9, the Commission considers the report needs to be modified to correct an error or errors in respect of matters set out in paragraph 8(2); this involves the publishing of a statement by the Commission specifying the modifications and the reasons why they are sought, which the Welsh Ministers must lay before the Senedd. Paragraph 10(5) requires the Welsh Ministers to give effect to the final report and the modifications set out in a statement under paragraph 10(2) when making regulations under paragraph 9.

*Delegation by the Commission of functions under this Schedule*

56. Paragraph 11 provides that the Senedd boundary review functions in this Schedule can be delegated by the Commission in accordance with section 13(1) of the 2013 Act.

*Welsh Ministers may not give directions to Commission relating to functions under this Schedule*

57. Paragraph 12 provides that the Welsh Ministers are not permitted to give the Commission a direction under section 14 of the 2013 Act related to the exercise of its Senedd boundary review functions (as provided for by this Schedule).

*Interpretation*

58. Paragraph 13 defines terms used in this Schedule.
59. As noted above, paragraph 14 provides that the Commission must publish a notice, report or other document on the Commission's website, and in any other way it considers appropriate.

**Section 18 - Senedd constituencies for general elections held after regulations under section 49J of 20 the 2013 Act take effect**

60. Section 18 introduces Schedule 3, which inserts a new Part 3A into the 2013 Act that makes provision about the Senedd constituencies for which Members of the Senedd will be elected at general elections held after the first set of regulations under section 49J of the 2013 Act takes effect.

**SCHEDULE 3: NEW PART 3A OF THE 2013 ACT**

61. Schedule 3 is introduced by section 18.
62. This Schedule makes provision for the Commission to carry out regular reviews of Senedd constituency boundaries for which Members of the Senedd will be elected at general elections to be held after the first set of regulations made under section 49J of the 2013 Act take effect. It sets out the rules and processes the Commission must follow in reviewing boundaries and determining what changes to make.

*Part 3A of the 2013 Act*

63. Paragraph 1 of Schedule 3 inserts a new Part 3A into the 2013 Act, as detailed in the paragraphs below.

64. Mae **adran 49A** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad ffiniau unwaith ym mhob cyfnod adolygu, gydag is-adran (5) yn diffinio hyd y cyfnod adolygu fel cyfnod sy'n dechrau ag 1 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben ar 30 Tachwedd 2028, cyfnod o wyth mlynedd sy'n dechrau ag 1 Rhagfyr 2028 a phob cyfnod dilynol o wyth mlynedd. Mae adran 49A yn nodi'r materion y mae rhaid i'r Comisiwn benderfynu arnynt os yw'n ystyried y dylid newid ffiniau etholaeth Senedd. Mae'r adran hon hefyd yn darparu, hyd yn oes os na fydd ffiniau etholaeth Senedd yn newid, y caniateir i'r Comisiwn barhau i newid ei enw, neu ei statws fel etholaeth sirol neu fwrdeistrefol.
65. Mae **adran 49B** yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi hysbysiad unwaith y bydd yr adolygiad wedi cychwyn (yn unol ag adran 49L(2), sy'n ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i unrhyw beth a gyhoeddir o dan Ran 3A gael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn ac mewn unrhyw fodd arall y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol), a rhaid i hysbysiad o'r fath bennu'r dyddiad y cychwynnodd yr adolygiad. Mae'r adran hon hefyd yn diffinio "dyddiad yr adolygiad" at ddibenion Rhan 3A o Ddeddf 2013 drwy gyfeirio at y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad cychwyn.
66. Mae **adran 49C** yn nodi'r rheolau y mae rhaid i'r Comisiwn eu dilyn wrth gynnal ei adolygiadau:
- Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth Senedd fod o fewn amrywiad cwota etholiadol o ddim llai na 90% a dim mwy na 110% o'r cwota etholiadol. Diffinnir y cwota etholiadol yn is-adran (3)(b) o'r adran hon.
  - Mae is-adran (2)(a) yn darparu ar gyfer rhestr o ffactorau y caiff y Comisiwn roi sylw iddynt wrth benderfynu pa un a ddylid newid ffiniau etholaethau'r Senedd a beth y dylai'r newidiadau hynny fod. Mae is-adran (2)(b) yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn, mewn unrhyw achos, geisio sicrhau y gwneir cyn lleied o newidiadau â phosibl i ffiniau etholaethau'r Senedd a rhoi sylw i'r anghyfleustra a achosir drwy wneud unrhyw newidiadau. Bwriad is-adran (2)(b) yw gorfodi'r Comisiwn i ystyried y ffaith bod canlyniadau gweinyddol ac ymarferol i wneud newidiadau i etholaethau, ac i anelu i achosi'r newid lleiaf posibl i etholaethau'r Senedd. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys ym mhob achos, gan gynnwys yng nghyd-destun pwerau'r Comisiwn i ystyried unrhyw un neu ragor o'r materion a restrir yn is-adran (2)(a). Caiff y Comisiwn ystyried, er enghraifft, ffiniau wardiau etholaethol presennol; ond wrth ystyried y wardiau hynny (ac, er enghraifft, ddod i'r casgliad na ddylai ffiniau etholaeth Senedd dorri ar draws ffiniau ward) dylai'r Comisiwn barhau i sicrhau'r newid lleiaf posibl i etholaethau'r Senedd. Nid bwriad y ddarpariaeth hon yw gorfodi'r Comisiwn i gyfyngu ei hun i'r newidiadau hynny'n unig sy'n hanfodol i etholyddiaeth etholaeth fod o fewn yr ystod cwota etholiadol yn is-adran (1).
  - Mae is-adran (3) yn diffinio'r etholyddiaeth a'r cwota etholiadol at ddibenion is-adran (1).
  - Mae is-adran (4) yn pennu pa fersiwn o'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol y dylid ei defnyddio i benderfynu'r cwota etholiadol ar gyfer pob adolygiad.

64. **Section 49A** requires the Commission to conduct a boundary review once in each review period, with subsection (5) defining the length of a review period as being the period beginning with 1 April 2025 and ending with 30 November 2028, the period of eight years beginning with 1 December 2028 and each subsequent period of eight years. Section 49A sets out the matters the Commission must determine if it considers that the boundaries of a Senedd constituency should change. This section also provides that, even if the boundaries of a Senedd constituency are not to change, the Commission may still decide to change its name, or its status as a county or borough constituency.
65. **Section 49B** provides that the Commission must publish a notice once the review has commenced (in accordance with section 49L(2), which requires that anything published under Part 3A must be published on the Commission's website and in such other manner as the Commission considers appropriate), and such notice must specify the date on which the review commenced. This section also defines "review date" for the purpose of Part 3A of the 2013 Act by reference to the date specified in the notice of commencement.
66. **Section 49C** sets out the rules the Commission must follow when conducting its reviews:
- Subsection (1) requires that each Senedd constituency must be within an electoral quota variance of no less than 90% and no more than 110% of the electoral quota. The electoral quota is defined in subsection (3)(b) of this section.
  - Subsection (2)(a) provides for a list of factors that the Commission may have regard to when determining whether there should be changes to Senedd constituency boundaries and what those changes should be. Subsection (2)(b) states that the Commission must, in any event, seek to minimise the number of changes to Senedd constituencies and have regard to the inconveniences caused by the making of any changes. Subsection(2)(b) is intended to oblige the Commission to have regard to the fact that making changes to constituencies has administrative and practical consequences, and to aim to bring about the smallest amount of change to Senedd constituencies. This duty applies in all circumstances, including in the context of the Commission's powers to have regard to any of the matters listed in subsection (2)(a). The Commission may take into account, for example, the boundaries of existing electoral wards; but in taking those wards into account (and, for example, concluding that the boundaries of a Senedd constituency should not cut across the boundaries of a ward) the Commission should still seek to bring about the smallest amount of change to the Senedd constituencies. This provision is not intended to oblige the Commission to restrict itself only to those changes that are essential for the electorate of a constituency to fall within the electoral quota range in subsection (1).
  - Subsection (3) defines the electorate and the electoral quota for the purposes of subsection (1).
  - Subsection (4) specifies which version of the register of local government electors is to be used to determine the electoral quota for each review.

- Mae is-adran (5), a ddarllenir gydag is-adran (2)(a)(i), yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried darpar ffiniau ar ddyddiad yr adolygiad.
  - Mae is-adran (6) yn diffinio "darpar ffin" at ddibenion is-adran (5).
67. Mae **adran 49D** yn nodi sut y dylid penderfynu ar enwau etholaethau'r Senedd, a pha gamau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd wrth benderfynu ar yr enwau hynny, gan gynnwys ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff unrhyw enw arfaethedig. Rhaid i etholaethau gael enw unigol i'w ddefnyddio wrth gyfathrebu'n Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai yr ystyrir hyn yn annerbyniol gan y Comisiwn. Os felly, caniateir rhoi enwau gwahanol ar etholaethau i'w defnyddio wrth gyfathrebu'n Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd enwau gwahanol, mae'n ofynnol cynnwys y ddau enw yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau'r Comisiwn.
68. Mae **adran 49E(1)** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wneud adroddiad cychwynnol ar ôl iddo gyhoeddi'r hysbysiad cychwyn ac ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau arfaethedig ar gyfer yr etholaethau (os yw'n cynnig newidiadau i unrhyw un neu ragor o'r enwau) a manylion ynghylch yr hyn y mae rhaid i'r adroddiad hwnnw ei gynnwys. Mae adran 49E(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn (ymysg pethau eraill) gyhoeddi'r adroddiad cychwynnol a gwahodd sylwadau arno. Mae'r adran hon hefyd yn darparu mai'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau yw cyfnod o wyth wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir yr adroddiad cychwynnol. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn (ac ni chyfyngir yr ymgynghoriad hwn i orgraff yr enwau arfaethedig).
69. Mae **adran 49F** yn nodi'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd ar ôl y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau, gan gynnwys y gofyniad yn is-adran (1) i gyhoeddi unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Unwaith y cyhoeddir y sylwadau (ar ôl y cyfnod cyntaf), bydd yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau yn cychwyn ac yn para am chwe wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y caiff y ddogfen sy'n amlinellu'r sylwadau a gafwyd, fel y crybwyllir yn is-adran (1), ei chyhoeddi. Rhaid i'r Comisiwn hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol am sut i gael mynediad at y ddogfen a gwahodd sylwadau pellach ar y sylwadau a wnaed yn y ddogfen. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn hefyd gyhoeddi gwybodaeth ynghylch gwrandawiadau cyhoeddus, gan gynnwys ymhle a phryd y'u cynhelir (mae adran 49G yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch gwrandawiadau cyhoeddus). Mae is-adran (4) yn diffinio "cyfleusterau o bell" yng nghyd-destun gwrandawiadau cyhoeddus.
70. Mae **adran 49G** yn nodi'r manylion am faint o wrandawiadau cyhoeddus sydd i'w cynnal yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau ac mae'n disgrifio sut y dylid cynnal y gwrandawiadau hynny.

- Subsection (5), read with subsection (2)(a)(i), requires the Commission to consider prospective boundaries on the review date.
  - Subsection (6) defines “prospective” for the purposes of subsection (5).
67. **Section 49D** sets out how the names of Senedd constituencies are to be determined, and the actions the Commission must take when determining those names, including consultation with the Welsh Language Commissioner on the orthography of any names proposed. Constituencies must have a single name for communication in Welsh and English, unless the Commission consider this to be unacceptable. If so, constituencies may have different names for use in Welsh and English. If there are different names, there is a requirement to include both names in the Welsh and English versions of the Commission’s reports.
68. **Section 49E(1)** requires the Commission to make an initial report after it has published the notice of commencement and consulted the Welsh Language Commissioner on the orthography of the proposed constituency names (if it is proposing changes to any of the names) and details what that report must contain. Section 49E(2) requires the Commission to (amongst other things) publish the initial report and invite representations on it. This section also provides that the first period for representations is a period of eight weeks, beginning with the date on which the initial report is published. The Commission must consult with the Welsh Language Commissioner during this period (and this consultation is not limited to the orthography of proposed constituency names).
69. **Section 49F** sets out the actions the Commission must take following the first period for representations, including the requirement in subsection (1) to publish any representations received during that period. Once the representations (following the first period) are published, the second period for representations commences and lasts for six weeks, starting with the date the document setting out the representations received, as mentioned in subsection (1), is published. The Commission must notify any person it considers appropriate of how to access the document and invite further representations on the representations made in the document. The Commission is also required to publish information about public hearings, including where and when they will be held (section 49G makes further provision about public hearings). Subsection (4) defines “remote facilities” in the context of public hearings.
70. **Section 49G** sets out details of how many public hearings are to be held during the second period for representations and describes how those hearings are to be conducted.

71. Mae **adran 49H** yn nodi'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau. Rhaid i'r Comisiwn ystyried ei gynigion yn gyntaf gan roi sylw i'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau. Os cynigir newidiadau i enwau'r etholaethau gan y Comisiwn na chawsant eu cynnig yn yr adroddiad cychwynnol, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar orgraff yr enwau hynny. Rhaid i'r Comisiwn yna wneud a chyhoeddi ail adroddiad, y mae rhaid iddo nodi manylion unrhyw newidiadau a wnaed gan y Comisiwn i'r cynigion a nodir yn yr adroddiad cychwynnol ac eglurhad dros wneud y newidiadau hynny, neu ddatganiad nad yw'n ystyried bod unrhyw newid yn briodol. Rhaid i'r Comisiwn hefyd gyhoeddi dogfen sy'n cynnwys unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau a chofnodion y gwrandawiadau cyhoeddus. Mae adran 49H hefyd yn darparu ar gyfer trydydd cyfnod a chyfnod terfynol ar gyfer sylwadau sy'n para am bedair wythnos (gan ddechrau ar y dyddiad y cyhoeddir yr ail adroddiad). Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn (ac nid yw'r ymgynghoriad hwn wedi ei gyfyngu i orgraff yr enwau arfaethedig ar yr etholaethau). Mae adran 49H yn amlinellu'r camau y dylai'r Comisiwn eu cymryd ar ddiwedd y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau. Mae'r rhain yn golygu cyhoeddi unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod terfynol ac ystyried ei gynigion gan roi sylw i'r sylwadau hynny. Mae hyn yn cynnwys gofyniad pellach i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau pan fo'r Comisiwn yn cynnig newidiadau sy'n ymwneud ag enwau etholaethau'r Senedd nad oeddent wedi eu cynnwys yn yr ail adroddiad.
72. Mae **adran 49I** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wneud a chyhoeddi adroddiad terfynol cyn 1 Rhagfyr 2028, a chyn 1 Rhagfyr bob wyth mlynedd ar ôl hynny, ac anfon yr adroddiad hwnnw at Weinidogion Cymru. Mae'r adran hon yn nodi yr hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn adroddiad terfynol, gan gynnwys naill ai manylion unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'w gwneud i etholaethau'r Senedd neu ddatganiad nad yw'n ofynnol gwneud unrhyw newidiadau, yn ogystal ag amlinellu manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad ynghyd â'r rheswm am y newidiadau hynny. Mae is-adrannau (3) a (4) yn rhestru yr hyn y mae rhaid i'r adroddiad ei nodi yn benodol pan fo'n ofynnol gwneud newidiadau. Mae hyn yn benodol yn cynnwys gofyniad i nodi ffiniau ac enwau'r holl etholaethau hyd yn oed os yw'r newidiadau'n gysylltiedig â rhai etholaethau'n unig. Mae'r adran hon yn darparu nad yw methu â chyflwyno adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru cyn y terfyn amser yn golygu bod yr adroddiad yn annilys. Mae'r adran hon hefyd yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt ei gael.

71. **Section 49H** sets out the actions the Commission must take at the end of the second period for representations. The Commission must first consider its proposals having regard to representations made during the first and second period for representations. In the event the Commission proposes changes to the names of the constituencies that were not proposed in the initial report the Commission must consult, and have regard to any representations made by, the Welsh Language Commissioner on the orthography of those names. The Commission must then make and publish a second report, which must set out: the detail of any changes the Commission has made to the proposals set out in the initial report and an explanation of why those changes have been made, or a statement that they do not consider any change appropriate. The Commission must also publish a document containing any representations received during the second period for representations and the records of the public hearings. Section 49H also provides for a third and final period for representations lasting four weeks (beginning with the date the second report is published). The Commission must consult the Welsh Language Commissioner during this period (and this consultation is not limited to the orthography of proposed constituency names). Section 49H outlines the actions to be taken by the Commission following the end of the final period for representations. These involve publishing any representations received during the final period and considering its proposals having regard to those representations. This includes a further requirement to consult the Welsh Language Commissioner on the orthography of the names where the Commission proposes changes relating to the names of Senedd constituencies that were not contained in the second report.
72. **Section 49I** requires the Commission to make and publish a final report before 1 December 2028, and before 1 December every eight years thereafter, and to send that report to the Welsh Ministers. This section sets out what a final report must contain, including either the details of any changes that are required to be made to Senedd constituencies or a statement that no alteration is required, as well as setting out the detail of any changes to the proposals set out in the second report together with the reason for those changes. Subsections (3) and (4) list what the report must specifically set out where changes are required. This includes in particular a requirement to set out the boundaries and names of all the constituencies even if the changes are only to some constituencies. This section provides that a failure to submit a final report to the Welsh Ministers before the deadline does not render the report invalid. This section also provides that the Welsh Ministers must lay the final report before the Senedd as soon as reasonably practicable after it is received.

73. Mae **adran 49J** yn manylu ynghylch sut y mae rhaid i Weinidogion Cymru weithredu adroddiad terfynol. Pan fo'n ofynnol gwneud newidiadau i etholaethau'r Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhoi effaith i'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod yr adroddiad gerbron y Senedd ac mewn unrhyw achos, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, cyn diwedd y cyfnod o 4 mis. Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r camau y mae rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd os nad yw'r rheoliadau wedi eu gwneud o fewn y cyfnod penodedig, sy'n union yr un fath â'r camau sy'n ofynnol o dan baragraff 9 o Atodlen 2 i'r Ddeddf. Dylid gwneud rheoliadau o dan yr adran hon drwy offeryn statudol, ac er nad ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn yn y Senedd, rhaid gosod yr offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud. Mae is-adran (8) yn darparu nad yw dod i rym y rheoliadau yn effeithio ar ddychwelyd Aelod o'r Senedd na chyfansoddiad y Senedd hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf, neu etholiad cyffredinol eithriadol a gynhelir ar y diwrnod y byddai'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf wedi ei gynnal arno, neu etholiad cyffredinol eithriadol a gynhelir yn ystod y mis cyn hynny.
74. Mae **adran 49K** yn disgrifio sut y caniateir addasu adroddiad terfynol mewn unrhyw achos pan nodir gwallau gan y Comisiwn, ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Senedd ond cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan adran 49J. Mae'r adran hon yn darparu manylion y camau y caiff neu y mae rhaid i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru eu cymryd yn yr achos hwnnw, gan gynnwys cyhoeddi a gosod datganiad sy'n pennu'r addasiadau a'r rhesymau dros yr addasiadau hynny. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 49J adlewyrchu'r adroddiad terfynol ac unrhyw addasiadau a bennir yn y datganiad a wneir o dan yr adran hon.
75. Mae **adran 49L** yn diffinio termau a ddefnyddir yn Rhan 3A o Ddeddf 2013. Mae'r adran hon hefyd yn nodi sut y dylai'r Comisiwn gyhoeddi unrhyw hysbysiadau, adroddiadau a dogfennau eraill sy'n ofynnol o dan y Rhan hon.

#### *Diwygiadau cysylltiedig*

76. Mae paragraff 2 o Atodlen 3 yn nodi diwygiadau cysylltiedig i Ddeddf 2013 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"). Mae paragraff 2(2) yn diwygio'r trosolwg yn adran 1 o Ddeddf 2013 i gynnwys cyfeiriad at Ran 3A newydd o'r Ddeddf. Mae paragraff 2(3) yn diwygio adran 13 i ganiatáu dirprwyo swyddogaethau adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd i aelodau penodol o'r Comisiwn a chomisiynwyr cynorthwyol. Mae paragraff 2(4) yn diwygio adran 14 o Ddeddf 2013 fel na chaiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad ag adolygiadau ffiniau etholaethau'r Senedd. Mae gweddill y darpariaethau yn y paragraff hwn yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol.

73. **Section 49J** details how a final report must be implemented by the Welsh Ministers. Where changes are required to be made to Senedd constituencies, the Welsh Ministers must make regulations giving effect to the determinations made in a final report of the Commission as soon as reasonably practicable after laying the report before the Senedd and, unless there are exceptional circumstances, before the end of the period of 4 months. This section also sets out the actions to be taken by Welsh Ministers if regulations are not made within the specified period, which are identical to those required under paragraph 9 of Schedule 2 to the Act. Regulations under this section are to be made by statutory instrument, and while they are not subject to any procedure within the Senedd, the statutory instrument containing the regulations must be laid before the Senedd as soon as reasonably practicable after the regulations are made. Subsection (8) provides that the coming into force of the regulations does not affect the return of a Member of the Senedd or the constitution of the Senedd until the dissolution of the Senedd in connection with the next ordinary general election, or an extraordinary general election held on the day the next ordinary general election would have been held, or an extraordinary general election held during the preceding one month period.
74. **Section 49K** describes how a final report may be modified in the event of any errors identified by the Commission, after it has been laid before the Senedd but prior to regulations being made under section 49J. This section provides details of the actions the Commission and the Welsh Ministers may or must take in that event, including the publishing and laying of a statement specifying the modifications and the reasons for those modifications. Subsection (5) requires the regulations made by the Welsh Ministers under section 49J to reflect the final report and any modifications specified in the statement made under this section.
75. **Section 49L** defines terms used in Part 3A of the 2013 Act. This section also sets out how the Commission is to publish any notices, reports and other documents required under this Part.

*Related amendments*

76. Paragraph 2 of Schedule 3 sets out related amendments to the 2013 Act and the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (“the 2021 Act”). Paragraph 2(2) amends the overview in section 1 of the 2013 Act to include a reference to new Part 3A of the Act. Paragraph 2(3) amends section 13 to allow for the delegation of Senedd constituency boundary review functions to specific members of the Commission and assistant commissioners. Paragraph 2(4) amends section 14 of the 2013 Act so that the Welsh Ministers may not give directions to the Commission relating to the exercise of its functions relating to Senedd constituency boundary reviews. The remainder of the provisions in this paragraph make minor and technical amendments.

*Darpariaeth drosiannol*

77. Mae paragraff 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud y set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J, nodi ffiniau ac enwau pob un o 16 o etholaethau'r Senedd, a nodi pa un a ydynt yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Mae hyn yn gymwys pa un a yw'r adroddiad terfynol ar yr adolygiad cyntaf o ffiniau a gynhaliwyd o dan Ran 3A o Ddeddf 2013 yn pennu bod newidiadau yn ofynnol i etholaethau'r Senedd ai peidio. Mae paragraff 3(2) yn gwneud addasiad trosiannol i'r effaith fod y diffiniad o'r term "etholaeth Senedd" yn adran 49L(1) i'w ddarllen fel cyfeiriad at reoliadau a wneir o dan baragraff 9 o Atodlen 2 i'r Ddeddf (ar ôl yr adolygiad a gynhelir o dan yr Atodlen honno) hyd nes y bydd y set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J yn cymryd effaith.

**RHAN 5 - ADOLYGIAD O WEITHREDIAD Y DDEDDF ETC. A**

**DARPARIAETHAU CYFFREDINOL**

*Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc.*

78. Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer gofyniad i'r Llywydd i gyflwyno cynnig i'r Senedd ystyried adolygiad o weithrediad ac effaith darpariaethau Deddf 2006, fel y'u diwygir gan y Ddeddf, yn dilyn etholiad 2026. Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys: pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol, pŵer i osod terfynau gwariant ymgyrchoedd y Senedd, darpariaethau ynghylch gweithdrefn y Senedd sydd i fod yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 20 neu 21 o'r Ddeddf, adran ddehongli, darpariaethau trosiannol mewn perthynas â Rhan 1 a 2, a darpariaethau ynghylch cychwyn ac enw byr y Ddeddf.

**Adran 19 – Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026**

79. Mae adran 19 yn gosod dyletswydd ar y Llywydd i gyflwyno cynnig i'r Senedd sefydlu pwyllgor i adolygu gweithrediad ac effaith Rhan 1 ("y Senedd a Gweinidogion Cymru") a Rhan 2 ("y System Bleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol y Senedd a Dyrannu Seddi") o'r Ddeddf hon, yn ogystal ag adolygu'r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru.
80. Os yw'r Senedd yn cytuno ar gynnig i sefydlu pwyllgor i gynnal adolygiad o'r fath, mae'n bosibl y bydd yr adolygiad yn ystyried materion megis:
- (i). effeithiau'r system bleidleisio newydd ar gyfranoldeb;
  - (ii). cyflwyno etholaethau aml-aelod;
  - (iii). y profiad o ddefnyddio rhestrau caeedig.
81. Yn y pen draw, penderfyniad i'r Senedd, o ran y cynnig y bydd yn cytuno arno (os bydd yn cymeradwyo unrhyw gynnig o'r fath) a'r pwyllgor ei hun fydd penderfynu yr hyn y dylid ei ystyried yn ei adolygiad, a sut y dylid cynnal yr adolygiad hwnnw. Wrth ystyried effaith y system bleidleisio newydd, mae ystod o faterion ac egwyddorion y gallai'r pwyllgor eu hystyried, gan gynnwys yr egwyddorion a osodir gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol (megis cyfranoldeb, symlwydd, a'r graddau y mae'r system newydd wedi cyflawni Senedd sy'n adlewyrchu pobl Cymru).

*Transitional provision*

77. Paragraph 3(1) requires the Welsh Ministers, when making the first set of regulations under section 49J, to set out the boundaries and names of all 16 Senedd constituencies, and whether they are a county or a borough constituency. This applies whether or not the final report on the first boundary review conducted under Part 3A of the 2013 Act determines that changes are required to be made to the Senedd constituencies. Paragraph 3(2) makes a transitional modification to the effect that the definition of the term “Senedd constituency” in section 49L(1) is to be read as referring to regulations made under paragraph 9 of Schedule 2 to the Act (following the review conducted under that Schedule) until the first set of regulations under section 49J take effect.

## **PART 5 – REVIEW OF OPERATION OF ACT ETC. AND GENERAL PROVISIONS**

### ***Review of operation of Act etc.***

78. This Part provides for a requirement that the Presiding Officer asks the Senedd, by way of a motion tabled, to consider a review of the operation and effect of the provisions of the 2006 Act, as amended by the Act, following the 2026 election. This Part also includes: a power to make consequential and transitional provisions, a power to set Senedd campaign expenditure limits, provisions about the Senedd procedure to apply to regulations made under section 20 or 21 of the Act, an interpretation section, transitional provisions in respect of Parts 1 and 2, and provisions about commencement and the short title of the Act.

### **Section 19 - Review of operation of Act etc. after 2026 general election**

79. Section 19 places a duty on the Presiding Officer to table a motion proposing that the Senedd establish a committee to review the operation and effect of Part 1 (“the Senedd and Welsh Ministers”) and Part 2 (“Voting System at Senedd General Elections and Allocation of Seats”) of this Act, as well as to review the extent to which the elements of a healthy democracy are present in Wales.
80. If the Senedd agrees a motion to establish a committee to conduct such a review, it is possible that the review may consider such issues as:
- (i). the impacts of the new voting system on proportionality;
  - (ii). the introduction of multi-member constituencies;
  - (iii). the experience of using closed lists.
81. Ultimately it will be for the Senedd, in the terms of the motion it agrees (if it passes any such motion), and for the committee itself, to determine what it should consider in its review, and how that review should be conducted. In considering the impact of the new voting system, there are a range of matters and principles the committee could take into account, including the principles set down by the Expert Panel on Electoral Reform (such as proportionality, simplicity, and the extent to which the new system has delivered a Senedd that is reflective of the people of Wales).

82. Mae'n bosibl y bydd pwyllgor a sefydlir gan y Senedd o dan adran 19 hefyd yn dymuno cynnal asesiad o unrhyw faterion eraill diwygio'r Senedd y mae'n ystyried eu bod yn berthnasol, megis:
- (i). ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o etholiadau a llywodraeth ddatganoledig Cymru;
  - (ii). asesiad o'r lefelau pleidleisio ac archwiliad o gynigion ar sut y gellir eu cynyddu;
  - (iii). cymorth ar gyfer aelodau a phleidiau i ymgymryd â'u rolau yn y Senedd;
  - (iv). y seilwaith sydd ar waith i gefnogi democratiaeth gref yng Nghymru,

ond bydd hyn fater i'r pwyllgor ei hun, yn ddarostyngedig i delerau'r cynnig a'i sefydlodd (ac unrhyw gynnis perthnasol arall).

83. Rhaid i'r cynnig gael ei gyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd a ddychwelir mewn etholiad cyffredinol a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026, ond mewn unrhyw achos o fewn 6 mis i'r cyfarfod hwnnw, a rhaid iddo gynnig bod rhaid i'r pwyllgor gwblhau ei adroddiad o fewn 12 mis i'r cyfarfod hwnnw.
84. Pe byddai'r Senedd yn cytuno ar gynnig i sefydlu pwyllgor o'r fath, a chynnal adolygiad o'r fath, yn unol â'r adran hon, ac os yw'r pwyllgor hwnnw wedyn yn gosod adroddiad gerbron y Senedd, yna mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd sy'n amlinellu eu hymateb i'r adroddiad hwnnw.

#### *Cyffredinol*

#### **Adran 20 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.**

85. Mae adran 20 yn darparu pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer dibenion penodol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth arall. Pan ddefnyddir y pŵer i ddiwygio, dirymu neu addasu deddfwriaeth sylfaenol, mae'r Offeryn Statudol canlyniadol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd (gweler adran 22); fel arall, mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

#### **Adran 21 – Pŵer i osod terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol y Senedd mewn cysylltiad ag adran 1 a Rhan 2**

86. Mewn cysylltiad â'r newidiadau a wnaed gan adran 1 (y nifer o Aelodau o'r Senedd ac etholaethau'r Senedd) a Rhan 2 (y system bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol y Senedd a Dyrannu Seddi), mae adran 21 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio paragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (terfynau ar wariant ymgyrch) er mwyn gosod y terfynau ar wariant ymgyrch yr eir iddo gan neu ar ran plaid gofrestredig sy'n ymladd am seddi mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd.
87. Caniateir i derfynau o'r fath gael eu gosod unai drwy gyfeirio at nifer yr etholaethau y mae'r blaid yn eu hymladd mewn etholiad cyffredinol, neu nifer yr ymgeiswyr ar restr neu restrau ymgeiswyr plaid, neu'r ddau ohonynt. Mae'r pŵer hwn yn cynnwys pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth arall.
88. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 21 ond â chydsyniad y Comisiwn Etholiadol ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

82. It is possible that a committee established by the Senedd under section 19 may also wish to carry out an assessment of any other Senedd reform issues that it considers relevant, such as:
- (i). the awareness and understanding of devolved Welsh government and elections;
  - (ii). an assessment of turnout levels and an exploration of proposals for how this may be increased;
  - (iii). support for members and parties to undertake their Senedd roles;
  - (iv). the infrastructure in place to support a strong Welsh democracy,

but this will be a matter for the committee itself, subject to the terms of the motion that established it (and any other relevant motion).

83. The motion must be tabled as soon as practicable after the first meeting of the Senedd returned at a general election held after 6 April 2026, but in any event within 6 months of that meeting, and the motion must propose that the committee must complete its report within 12 months of said meeting.
84. If, in line with this section, the Senedd agrees a motion to establish such a committee, and undertake such a review, and if that committee then lays a report before the Senedd, then the Welsh Ministers are required to lay a statement before the Senedd which sets out their response to that report.

#### *General*

#### **Section 20 - Power to make consequential, transitional etc. provision**

85. Section 20 provides a power to make provision for certain purposes connected with implementing the Act. This includes a power to amend other primary and secondary legislation. Where the power is used to amend, repeal or modify primary legislation, the resulting Statutory Instrument is subject to the affirmative procedure in the Senedd (see section 22); otherwise, it is subject to the negative procedure.

#### **Section 21 - Power to set Senedd election campaign expenditure limits in connection with section 1 and Part 2**

86. In connection with the changes made by section 1 (number of Members of the Senedd and Senedd constituencies) and Part 2 (voting system at Senedd general elections and Allocation of Seats), section 21 provides the Welsh Ministers with a power to make regulations to amend paragraph 6 of Schedule 9 to the Political Parties, Elections, and Referendums Act 2000 (limits on campaign expenditure) to set the limits for campaign expenditure incurred by or on behalf of a registered party that is contesting seats in a general election to the Senedd.
87. Such limits may be set by reference to either the number of constituencies the party is contesting at a general election, or the number of candidates on a party's candidate list(s), or both. This power includes a power to amend other primary and secondary legislation.
88. Regulations made under section 21 may only be made with the consent of the Electoral Commission and are subject to the affirmative procedure in the Senedd.

## **Adran 22 – Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

89. Mae adran 22 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf (ac eithrio'r rhai a wneir o dan baragraff 9 o Atodlen2; gellir gweld y ddarpariaeth sy'n ymwneud â gwneud y diwygiadau hynny yn Atodlen 2ei hun), gan gynnwys gweithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys i'r rheoliadau hynny.

## **Adran 23 – Dehongli**

90. Mae adran 23 yn diffinio ymadroddion penodol a ddefnyddir yn y Ddeddf, ac yn nodi ymhle y mae modd gweld diffiniadau o ymadroddion penodol eraill yn y Ddeddf.

## **Adran 24 – Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â Rhannau 1 a 2**

91. Mae adran 24 yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â Rhannau 1 a 2.
92. Mae confensiwn sy'n nodi y dylai newidiadau i gyfraith etholiadol ddod i rym o leiaf 6 mis cyn dyddiad hysbysiad o'r etholiad y mae'n weithredol iddo gyntaf. Bwriad hyn yw rhoi sicrwydd i weinyddwyr etholiadol ynghylch y gyfraith sy'n llywodraethu etholiad sydd ar ddod ac er mwyn rhoi digon o amser i baratoi ar ei gyfer, gan gynnwys amser i ddeall a rhoi effaith i newidiadau i'r gyfraith. Am y rheswm hwn, er bod adran 25 yn darparu ar gyfer y newidiadau a wneir gan y Ddeddf hon i faint y Senedd, etholaethau, y system bleidleisio ac anghymhwys ymgeiswyr ac Aelodau, ynghyd â'r diwygiadau cysylltiedig i ddeddfiadau eraill (gweler adran 10), i ddod i rym ddeufis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol, effaith adran 24 yw oedi'r newidiadau hynny rhag cymryd effaith hyd nes y cynhelir yr etholiad cyffredinol cyntaf ar 7 Ebrill 2026 neu wedi hynny (at y dibenion hyn, dyddiad y bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol sy'n berthnasol). Y dyddiad hwnnw yw'r dyddiad cynharaf y gallai'r Llywydd, o dan adran 4 o Ddeddf 2006, gynnig y bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf a amserlennir (sydd, o dan adran 3 o Ddeddf 2006, wedi ei hamserlennu ar gyfer 7 Mai 2026). Canlyniad adran 24 yw y byddai unrhyw etholiad cyffredinol a gynhelir cyn y dyddiad hwnnw yn cael ei gynnal o dan y gyfraith bresennol h.y. y system etholiadol aelodau cymysg y darperir ar ei chyfer yn Neddf 2006. Yn yr un modd, ni fydd newidiadau eraill y Ddeddf a grybwyllir yn adran 24(1) a (2) (gan gynnwys, er enghraifft, y newidiadau i'r ffordd yr ymdrinnir â seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau cyffredinol) yn cymryd effaith mewn cysylltiad ag unrhyw Senedd a ddychwelir o ganlyniad i bleidlais a gynhelir cyn 7 Ebrill 2026.
93. Mae adran 3 o'r Ddeddf yn lleihau'r amser rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin i bedair blynedd ac mae adran 25 yn darparu i'r newid hwnnw ddod i rym ar y diwrnod ar ôl diwrnod y bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 7 Tachwedd 2025. Mae adran 24(3) a (4) yn cadarnhau, os cynhelir etholiad cyffredinol eithriadol ar ôl y dyddiad hwnnw ond cyn yr etholiad cyffredinol cyffredin sydd wedi ei drefnu ar gyfer Mai 2026 (a fyddai'n arwain at yr etholiad cyffredinol cyffredin hwnnw yn peidio â chael ei gynnal: gweler adran 5(5) o Ddeddf 2006), y cynhelir yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf yn 2030.

## **Adran 25 – Dod i rym**

94. Mae adran 25 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pan ddaw'r Ddeddf i rym fel a ganlyn:
- (i). Daw Rhan 3, adran 17, Rhan 5 (ac eithrio adran 20), ac Atodlen 2 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.
  - (ii). Daw adrannau 1, 2, 6, 7, 18, 19, 21, Rhan 2, ac Atodlen 3 i rym ddau fis ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

## **Section 22 - Regulations under this Act**

89. Section 22 makes general provision about regulations made under the Act (except those made under paragraph 9 of Schedule 2; the provision relating to the making of those amendments can be found in Schedule 2 itself), including the Senedd procedures applicable to those regulations.

## **Section 23 - Interpretation**

90. Section 23 defines certain expressions used in the Act, and indicates where in the Act the definitions of certain other expressions can be found.

## **Section 24 - Transitional provision relating to Parts 1 and 2**

91. Section 24 makes transitional provision relating to Parts 1 and 2.
92. There is a convention that changes to electoral law should come into force at least 6 months before the date of the notice of the election at which they first apply. This is to give electoral administrators certainty as to the law governing a forthcoming election and sufficient time to prepare for it, including time to understand and give effect to changes in the law. For this reason, whilst section 25 provides for the changes made by this Act to the size of the Senedd, constituencies, the voting system and disqualification of candidates and Members, together with the related amendments to other enactments (see section 10), to come into force two months after Royal Assent, the effect of section 24 is to delay those changes from taking effect until the first general election held on or after 7 April 2026 (for these purposes, it is the date of the poll for the general election that is relevant). That date is the earliest date the Presiding Officer could, under section 4 of the 2006 Act, propose for the poll for the next scheduled ordinary general election (which, under section 3 of the 2006 Act, is scheduled for 7 May 2026). The result of section 24 is that any general election which may be held before that date, would be held under the pre-existing law i.e. the mixed member electoral system provided for in the 2006 Act. Similarly, the Act's other changes mentioned in section 24(1) and (2) (including, for example, the changes to how vacancies arising between general elections are dealt with) will not take effect in respect of any Senedd returned as a result of a poll which is held before 7 April 2026.
93. Section 3 of the Act reduces the time between ordinary general elections to four years and section 25 provides for that change to come into force on the day after the day of the poll for the first general election held after 7 November 2025. Section 24(3) and (4) confirm that, in the case that an extraordinary general election is held after that date but before the ordinary general election scheduled for May 2026 (which would result in that ordinary general election not taking place: see section 5(5) of the 2006 Act), the next ordinary general election would be due to take place in 2030.

## **Section 25 - Coming into force**

94. Section 25 makes provision for the coming into force of the Act as follows:
- (i). Part 3, section 17, Part 5 (other than section 20), and Schedule 2 come into force on the day after the Act receives Royal Assent.
  - (ii). Sections 1, 2, 6, 7, 18, 19, 21, Part 2, and Schedule 3 come into force two months after the day on which the Act receives Royal Assent.

- (iii). Daw adran 3 i rym drannoeth diwrnod y bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 7 Tachwedd 2025.
- (iv). Daw adrannau 4 a 5 i rym drannoeth diwrnod y bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026.

### Adran 26 – Enw byr

95. Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf yw Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.

### ATODLEN 1: MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL SY'N YMWNEUD Â RHAN 3

96. Cyflwynir Atodlen 1 gan adrannau 11 a 12. Mae paragraffau 37-38 o'r Nodiadau Esboniadol hyn yn darparu nodiadau ar Atodlen 1.

### ATODLEN 2: ETHOLAETHAU'R SENEDD AR GYFER YR ETHOLIAD CYFFREDINOL CYNTAF AR ÔL 6 EBRILL 2026

97. Cyflwynir Atodlen 2 gan adran 17. Mae paragraffau 44-59 o'r Nodiadau Esboniadol hyn yn darparu nodiadau ar Atodlen 2.

### ATODLEN 3: RHAN NEWYDD 3A O DDEDDF 2013

98. Cyflwynir Atodlen 3 gan adran 18. Mae paragraffau 61-77 o'r Nodiadau Esboniadol hyn yn darparu nodiadau ar Atodlen 3.

### COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

99. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:

<https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=41915>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	18 Medi 2023
Cyfnod 1 – Dadl	30 Ionawr 2024
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau	5 Mawrth 2024 a 6 Mawrth 2024
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau	30 Ebrill 2024
Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd	8 Mai 2024
Y Cydsyniad Brenhinol	24 Mehefin 2024

*These notes refer to the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4)  
which received Royal Assent on 24 June 2024*

- (iii). Section 3 comes into force the day after the day of a poll for the first general election held after 7 November 2025.
- (iv). Sections 4 and 5 come into force the day after the day of a poll for the first general election held after 6 April 2026.

### **Section 26 - Short title**

- 95. This section provides that the Act's short title is the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024.

### **SCHEDULE 1: MINOR AND CONSEQUENTIAL AMENDMENTS RELATING TO PART 3**

- 96. Schedule 1 is introduced by sections 11 and 12. Paragraphs 37-38 of these Explanatory Notes provide notes on Schedule 1.

### **SCHEDULE 2: SENEDD CONSTITUENCIES FOR FIRST GENERAL ELECTION AFTER 6 APRIL 2026**

- 97. Schedule 2 is introduced by section 17. Paragraphs 44-59 of these Explanatory Notes provide notes on Schedule 2.

### **SCHEDULE 3: NEW PART 3A OF THE 2013 ACT**

- 98. Schedule 3 is introduced by section 18. Paragraphs 61-77 of these Explanatory Notes provide notes on Schedule 3.

### **RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU**

- 99. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at: <https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IID=41915>

<b>Stage</b>	<b>Date</b>
Introduced	18 September 2023
Stage 1 - Debate	30 January 2024
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	5 March 2024 and 6 March 2024
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	30 April 2024
Stage 4 Approved by the Senedd	8 May 2024
Royal Assent	24 June 2024

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.







a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,  
ac ar gael o:

**Arlein**

**[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)**

**Post, Ffôn ac E-bost**

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,  
and available from:

**Online**

**[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)**

**Mail, Telephone & E-mail**

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

E-mail: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-11977-0



9 780348 119770